**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Lonydd Bysiau a Thraffig sy’n Symud (Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) 2025**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad yr Ysgrifennydd Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Lonydd Bysiau a Thraffig sy'n Symud (Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau tebygol.

**Ken Skates AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
10 Ionawr 2025

## 1. Disgrifiad

Bydd Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Lonydd Bysiau a Thraffig sy’n Symud (Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) 2025 (“y Gorchymyn”) yn galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (“y Cyngor”) i gymryd camau gorfodi yn ei Fwrdeistref Sirol. Bydd yn gymwys i bob priffordd gyhoeddus ac eithrio'r rheini a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn. O dan y system hon, byddai troseddau anardystiadwy megis defnyddio lonydd bysiau'n anghyfreithlon a chiwio anghyfreithlon ar draws cyffyrdd blychau melyn yn dod yn faterion gorfodi sifil yn hytrach na bod yn rhaid ymdrin â hwy fel troseddau.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r pwerau sy'n galluogi'r Offeryn hwn i gael ei wneud i'w gweld o dan baragraffau 9(1) a 10(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

Mae'r offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn negyddol

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Er mwyn cefnogi eu polisi o hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd a newid dulliau teithio, mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu strydoedd ysgolion a chanol trefi sy'n gyfeillgar i gerddwyr ac sydd â lonydd ar gyfer bysiau yn unig. Er mwyn bod yn effeithiol yn hynny o beth, rhaid i orfodi mewn perthynas â strydoedd ysgolion, ffyrdd mynediad yn unig, strydoedd unffordd ac ardaloedd i gerddwyr ddod o dan reolaeth y Cyngor. Canfyddir bod nifer cynyddol o fodurwyr yn anwybyddu arwyddion sy'n gwahardd symud ac nad ydynt yn ymwybodol o'r rheolau ar fynediad at eiddo yn unig neu dim mynediad a'u bod, felly, yn gyrru'n anghyfreithlon. Mae hynny'n amharu ar symudiadau tacsis ac ar gludiant i'r ysgol ac yn achosi pryderon am ddiogelwch cerddwyr, yn ogystal ag oedi diangen i draffig o bob math ac i drafnidiaeth gyhoeddus yn benodol.

Mae'r Cyngor wedi cynnal treialon cau ffyrdd mewn nifer o leoliadau o amgylch yr ysgolion y mae'n bwriadu cyflwyno gorchmynion traffig ar eu cyfer ac mae hynny wedi dangos bod effaith arwyddocaol ar ddiogelwch cerddwyr. Pan fo gorchmynion yn bodoli eisoes, mae'r treialon wedi dangos bod lefelau arwyddocaol o dramgwyddau. Mae'r awdurdod hefyd yn wynebu problemau sylweddol yng nghanol ei dref ar barthau sydd wedi eu dynodi ar gyfer cerddwyr. Dim ond un lôn fysiau sydd yn y

fwrdeistref, a gellid cymryd camau gorfodi mewn perthynas â hithau hefyd wrth fynd ati i wella canol y dref.

Bydd y Cyngor yn cymryd camau gorfodi mewn perthynas â thramgwyddau lonydd bysiau a thraffig sy'n symud trwy ddefnyddio camerâu a systemau cymorth symudol a statig cymeradwy. Maent yn bwriadu gweithredu'r camau gorfodi gan ddefnyddio'r staff sydd ganddynt eisoes.

Bydd prosesu hysbysiadau yn cael ei ychwanegu at y feddalwedd sydd gan y Cyngor eisoes ar gyfer cymryd camau gorfodi mewn perthynas â pharcio sifil. Bydd hysbysiadau tâl cosb yn cael eu cyflwyno trwy'r post. Bydd yr hysbysiad tâl cosb a thempledi ar gyfer yr ohebiaeth gysylltiedig yn cael eu diwygio i gyfeirio at dramgwyddau lonydd bysiau a thraffig sy'n symud yn hytrach nag at dramgwyddau parcio sifil, a bydd yn cydymffurfio â'r cynlluniau a argymhellir gan Dribiwnlys Cosbau Traffig annibynnol Cymru a Lloegr (Cyd-bwyllgor PATROL).

Mae Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Canllawiau ar Lefelau Taliadau) (Cymru) 2013 yn pennu y bydd tramgwyddau lonydd bysiau a thraffig sy'n symud i gyd yn ddarostyngedig i'r lefel uwch o dâl cosb. Yn unol â'r ddogfen honno, mae Cyngor Merthyr yn gwneud cais i'r taliadau a ganlyn, fel y'u nodir ym mand 2, fod yn gymwys: -

Tâl cosb lefel uwch = £70
Tâl cosb lefel uwch a delir yn gynnar = £35
Tâl cosb lefel uwch a delir ar ôl cyflwyno tystysgrif codi tâl = £105

Mae hyn yn cyfateb i'r band sy'n cael ei ddefnyddio ym Merthyr ar hyn o bryd ar gyfer tramgwyddau parcio lefel uwch.

Y dyddiad dod i rym ar gyfer yr Offeryn hwn yw 6 Chwefror 2025, yn unol â'r cais a wnaed gan y Cyngor. Pe bai'n cael ei ddirymu, ni fyddai'r Cyngor yn gallu gweithredu'r pŵer i gymryd camau gorfodi mewn perthynas â thramgwyddau lonydd bysiau a thraffig sy'n symud. Mae wedi cael cefnogaeth lawn yr Heddlu i ofyn am y pwerau hynny. Bydd gweithredu'r pwerau hynny'n rhyddhau'r heddlu lleol o'r dyletswyddau hynny, gan ryddhau amser ac adnoddau gwerthfawr yr heddlu er mwyn iddynt gael mynd i'r afael â meysydd busnes allweddol eraill sy'n gysylltiedig â diogelwch ar y ffyrdd.

## 5. Ymgynghori

Ymgynghorodd y Cyngor â'r holl randdeiliaid perthnasol ym mis Chwefror 2024. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad i'w gweld ym mharagraff 8 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Yr Opsiynau

**Opsiwn 1: Gwneud dim.** Pe na bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud, ni fyddai'r Cyngor yn gallu gweithredu'r pŵer i gymryd camau gorfodi yn 2025 mewn perthynas â thramgwyddau lonydd bysiau a thraffig sy'n symud. Mae'r Cyngor wedi cael cefnogaeth lawn yr Heddlu i ofyn am y pwerau hynny. Bydd eu cyflwyno yn rhyddhau'r heddlu lleol o'r dyletswyddau hynny, gan ryddhau amser ac adnoddau gwerthfawr yr heddlu er mwyn iddynt gael mynd i'r afael â mathau eraill o droseddau. Mae'n bosibl y byddai beirniadaeth wrth i adnoddau'r heddlu gael eu defnyddio ar gyfer troseddau parcio pan ellid eu defnyddio'n well i fynd i'r afael â meysydd busnes allweddol eraill sy'n gysylltiedig â diogelwch ar y ffyrdd.

**Opsiwn 2: Gweithredu'r darpariaethau o 6 Chwefror 2025 ymlaen.** Byddai gwneud y ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r Cyngor weithredu'r pŵer i gymryd camau gorfodi mewn perthynas â thramgwyddau lonydd bysiau a thraffig sy'n symud ac, o'r herwydd, byddai hynny rhyddhau'r heddlu er mwyn iddynt gael mynd i'r afael â materion troseddol eraill. Bydd ymgynghoriad llawn fel y'i disgrifir isod yn sicrhau na fydd y ddeddfwriaeth yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp penodol.

### 7. Costau a manteision

#### a) Costau

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**
O beidio â gweithredu'r darpariaethau, Heddlu De Cymru fydd yn parhau i ysgwyddo'r costau ac, oherwydd bod ganddo ddyletswyddau y mae mwy o frys yn eu cylch, ni fydd yn gallu neilltuo digon o adnoddau i fynd i'r afael â'r tramgwyddau y gallai'r Cyngor fynd i'r afael â hwy pe bai'n mabwysiadu'r pwerau hynny.

**Opsiwn 2 – Gweithredu'r darpariaethau o 6 Chwefror 2025 ymlaen**
Dim ond prynu a gosod un camera ar gyfer cynllun stryd ysgol y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud. Y Cyngor fydd yn ysgwyddo'r gost ac mae'n fodlon bod effaith ariannol lawn y cynllun wedi cael ei hystyried a bod darpariaeth wedi ei gwneud wrth bennu'r gyllideb. Amcangyfrifir y bydd prynu a gosod y camera yn costio £50,000 ac amcangyfrifir y bydd y costau rhedeg yn £4,700 y flwyddyn. Mae canlyniadau'r modelu a'r dadansoddi ariannol yn dangos y bydd y refeniw blynyddol a ddisgwylir o'r Hysbysiadau Tâl Cosb, ar ôl cyfrif costau rhedeg y camera, yn arwain at warged gweithredu o ryw £423.00 y flwyddyn. Bydd prynu a gweithredu unrhyw gamerâu yn y dyfodol yn dibynnu ar y cyllid a fydd ar gael.

Hoffai'r Cyngor bennu tâl cosb o £70, a gaiff ei ostwng i £35 am dalu'n gynnar. Bydd gyrwyr a fydd yn cael hysbysiad tâl cosb yn gallu ei herio

drwy gyflwyno sylwadau i'r Cyngor. Mae'n rhaid bod darpariaeth dyfarnu annibynnol ar gael i yrwyr a fydd yn parhau'n anhapus â phenderfyniad y Cyngor. Y Tribiwnlys Cosbau Traffig fydd yn darparu'r gwasanaeth hwnnw.

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru nac i'r awdurdodau lleol eraill.

**b) Y Manteision**

Rydym wedi nodi'r manteision a ganlyn ar gyfer pob opsiwn:

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**
Nid oes unrhyw fanteision.

**Opsiwn 2 – Gweithredu'r darpariaethau o 6 Chwefror 2025 ymlaen**

Bydd cymryd camau gorfodi ar strydoedd ysgolion yn gwella diogelwch i gerddwyr ac yn helpu i newid dulliau teithio ar gyfer y daith i'r ysgol. Bydd cymryd camau gorfodi mewn perthynas â lonydd beicio gorfodol Merthyr, a fydd yn cynnig mwy o ddiogelwch rhag cerbydau modur, hefyd yn helpu i newid dulliau teithio.

Bydd cymryd camau gorfodi mewn perthynas â chiwio anghyfreithlon ar draws cyffyrdd blwch melyn, a symudiadau anawdurdodedig gan draffig, yn helpu i atal tagfeydd diangen, oedi ar deithiau, a gwrthdaro posibl â cherddwyr sy'n croesi ffyrdd.

Bydd cymryd camau gorfodi mewn perthynas â chyfyngiadau ar bwysau, yn enwedig ar bontydd gwan, ac ardaloedd sy'n anaddas ar gyfer traffig lorïau trwm, yn gwella diogelwch y cyhoedd a'r amgylchedd lleol.

## 8. Ymgynghori

Yn unol â'r canllawiau perthnasol, a chyn cyflwyno ei gais, bu'r Cyngor yn ymgynghori â'r holl randdeiliaid perthnasol yn ystod mis Chwefror 2024. Yn eu plith yr oedd cynghorwyr lleol, y gwasanaethau brys, gweithredwyr bysiau a sefydliadau moduro. Ni ddaeth unrhyw ymatebion i law.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hysbysu'r cyhoedd yn llawn am y newidiadau arfaethedig i'r trefniadau gorfodi sy'n gysylltiedig â pharcio a bydd yn lansio rhaglen gyhoeddusrwydd gynhwysfawr cyn y dyddiad cychwyn arfaethedig. Bydd y rhaglen honno'n cynnwys defnyddio'i wefan, datganiadau i'r wasg a dosbarthu posteri a thaflenni'n gyffredinol.

Ar ôl i gais y Cyngor ddod i law, ac yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â Heddlu De Cymru a'r Ganolfan Gorfodi Traffig. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad.

**9. Adolygu ar ôl gweithredu**

Bydd effaith y Gorchymyn yn cael ei fonitro drwy ddatganiad blynyddol a fydd yn cael ei anfon gan y Cyngor at Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref. Bydd y datganiad hwnnw'n cynnwys canlyniadau ariannol y camau gorfodi a gymerir mewn perthynas â lonydd bysiau a thraffig sy'n symud ac unrhyw gamau y bydd y Cyngor yn eu cymryd mewn perthynas ag unrhyw ddiffyg ar y cyfrif ar gyfer lonydd bysiau a thraffig sy'n symud.

**10. Crynodeb**

Y Cyngor fydd yn ysgwyddo costau'r cynigion. Bydd y pwerau' n galluogi'r Cyngor i fabwysiadu camau gorfodi mwy trylwyr a gweladwy mewn perthynas â thramgwyddau lonydd bysiau a thraffig sy'n symud Bydd gweithredu'r pwerau hynny'n rhyddhau'r heddlu lleol o'r dyletswyddau hynny, gan ryddhau amser ac adnoddau gwerthfawr yr heddlu er mwyn iddynt gael mynd i'r afael â dyletswyddau y mae mwy o frys yn eu cylch.